**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 12 Chwefror 2024 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| W G Lewis | M W Locke | J W Jones |
| V A Holland | C A Holley | Y V Jardine |
| A J Jeffery | S M Jones | |

**Aelodau Cyfetholedig**
T Beddow

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Alyson Anthony | Aelod y Cabinet dros Les |
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |
| Hayley Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gymunedau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| David Howes | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Helen St John | Pennaeth y Gwasanaethau Integredig |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day, E T Kirchner, C L Philpott a/ac M S Tribe
Swyddogion: A Hawkins

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd Chris Holley fuddiant personol.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cwestiynau Gan y Cyhoedd**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

4 **Cynigion Drafft Cyllideb**

Roedd y Cynghorwyr Louise Gibbard, Alyson Anthony a Hayley Gwilliam, ynghyd â swyddogion perthnasol yn bresennol, ac aethpwyd trwy gynigion y gyllideb arfaethedig mewn perthynas â’r Gwasanaethau i Oedolion, y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Threchu Tlodi, gan dynnu sylw at y prif faterion ac ateb cwestiynau.

Cytunodd y panel â'r farn a'r argymhellion canlynol am y cynigion cyllidebol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yr hoffai eu cyflwyno i'r Cabinet:

- Cynnydd yn y gyllideb- mae'r panel yn falch o weld cynnydd yn y gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024/25 o £157m i £171m, sy'n gynnydd o oddeutu 9%. Mae hyn yn gadarnhaol iawn.
- Cydlynu Ardaloedd Lleol - roedd gan y panel bryderon dwys am y gostyngiad mewn CALlau gan eu bod yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol am hwy cyn dod i'r system Gwasanaethau Cymdeithasol.  Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei gynnal.
- Llai o gefnogaeth i bobl - mae'r panel yn poeni nad yw pobl yn cael yr un lefel o gymorth a chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ag yr oeddent yn arfer ei chael, ac mae'n rhaid i unigolion a theuluoedd wneud mwy a mwy drostynt eu hunain.
- Cynnydd yn y cyflog byw gwirioneddol - mae gan y panel bryderon am effaith y cynnydd yn y cyflog byw gwirioneddol ar y gyllideb ynghyd â'r defnydd o gontractwyr.
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn - roedd aelodau’r panel wedi'u synnu i glywed bod tanwariannau blaenorol mewn rhai meysydd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u cario drosodd fel cronfeydd wrth gefn, i'w defnyddio i dalu am unrhyw orwariant mewn meysydd eraill o'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cyllideb gros - Yn y dyfodol, hoffai'r Panel weld y gyllideb refeniw a'r gyllideb gros, gan nad yw'n deall lefel y ddibyniaeth ar grantiau etc.

Bydd cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid yn bresennol yng nghyfarfod y Cabinet ar 15 Chwefror i roi barn gyfunol y paneli perfformiad craffu ac ysgrifennu llythyr at yr Aelod Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben yn 3.00 pm